# ATODLEN 2

# TELERAU CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

## RHAN 1

## TELERAU A YMHLYGIR GAN Y DDEDDF

### PENNOD 4

### CYTUNDEBAU SY'N YMWNEUD Â LLEINIAU PARHAOL AR SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

*Ail-leoli cartref symudol*

44 (1) Mae gan y perchennog hawl i'w gwneud yn ofynnol bod hawl y meddiannydd i osod y cartref symudol yn arferadwy am unrhyw gyfnod o ran llain arall sy'n ffurfio rhan o'r safle gwarchodedig neu lain sy'n ffurfio rhan o safle gwarchodedig arall ("y llain arall")—

(a) os bydd tribiwnlys, ar gais y perchennog, wedi ei fodloni bod y llain arall yn debyg yn fras i lain wreiddiol y meddiannydd a'i bod yn rhesymol gosod y cartref symudol ar y llain arall am y cyfnod hwnnw, neu

(b) os bydd angen i'r perchennog wneud gwaith trwsio hanfodol neu waith brys nad oes modd ei wneud ond os caiff y cartref symudol ei symud i'r llain arall am y cyfnod hwnnw, a bod y llain arall yn debyg yn fras i lain wreiddiol y meddiannydd.

(2) Nid yw llain sy'n ffurfio rhan o safle gwarchodedig arall, at ddibenion is-baragraff (1)(a), yn debyg yn fras i lain wreiddiol y meddiannydd, ond os yw'n rhoi mynediad i wasanaethau iechyd ac addysg sy'n ofynnol gan y meddiannydd sydd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yn debyg yn fras i'r mynediad a roddwyd gan lain wreiddiol y meddiannydd.

(3) Os yw'r perchennog yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd osod y cartref symudol ar y llain arall er mwyn i'r perchennog gallu rhoi sylfaen newydd i'r cartref symudol gael ei osod arni neu i wneud gwaith trwsio i'r sylfaen honno, rhaid i'r perchennog, os yw'r meddiannydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog wneud hynny, sicrhau bod y cartref symudol yn cael ei ddychwelyd i'r llain wreiddiol ar ôl i'r gwaith o roi sylfaen newydd neu'r gwaith trwsio gael ei gwblhau.

(4) Rhaid i'r perchennog dalu'r holl gostau a threuliau y mae'r meddiannydd yn mynd iddynt mewn cysylltiad â symud y cartref symudol i'r llain arall ac yn ôl.

(5) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 46 ystyr "gwaith trwsio hanfodol neu waith brys" yw—

(a) gwaith trwsio i'r sylfaen y gosodwyd y cartref symudol arni,

(b) gwaith trwsio i unrhyw adeiladau allanol a chyfleusterau a ddarperir gan y perchennog ar y llain ac i unrhyw wasanaethau nwy, trydan, dŵr, carthffosiaeth neu wasanaethau eraill neu amwynderau eraill a ddarperir gan y perchennog yn yr adeiladau allanol hynny,

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) gwaith neu waith trwsio y mae ei angen i gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol, neu

(d) gwaith neu waith trwsio mewn cysylltiad ag adfer ar ôl llifogydd, tirlithriad neu drychineb naturiol arall.